

Adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg 2010/11

24 Hydref 2011

Cyflwyniad

Daeth Cynllun Iaith Gymraeg Comisiwn y Loteri Genedlaethol i rym ar 20 Medi 2010.

Oddi ar hynny, gwnaed llawer iawn i sicrhau bod y Comisiwn yn barod i ateb prif ofyniad Deddf yr Iaith Gymraeg, sef y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn y mae'r cynllun ar waith ac mae'n asesu cynnydd y Comisiwn yn ôl y gweithredoedd a amlinellir yn y cynllun.

Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn ar gael ar ein gwefan (www.natlotcomm.gov.uk) yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar y wefan yn y ddwy iaith hefyd.

Corfforaethol

Mae gan Swyddog Cyfathrebu'r Comisiwn gyfrifoldeb am ymwybyddiaeth fewnol o'r Cynllun Iaith Gymraeg ac am gydymffurfio â'i ofynion. Yn fuan ar ôl cyhoeddi'r cynllun, cyflwynodd y Tîm Cyhoeddiadau gynnwys y cynllun i staff. Cafodd staff sydd â chyswllt rheolaidd â'r cyhoedd eu hysbysu'n unigol am sut y dylent ymateb i gyfathrebu yn Gymraeg gan y cyhoedd.

Annual report to the Welsh Language Board 2010/11

24 October 2011

Introduction

The National Lottery Commission's Welsh Language Scheme became effective on 20 September 2010.

Since then, great strides have been taken to ensure that the Commission is well prepared to meet the key requirement of the Welsh Language Act; namely that the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality.

This report reflects on the progress made in the year that the scheme has been in operation and assesses the Commission's progress against the actions set out in the scheme.

The Commission's Welsh Language Scheme is available from our website (www.natlotcomm.gov.uk) in both Welsh and English language versions. This report will also be published on the website in both languages.

Corporate

The Commission's Communications Officer has responsibility for the internal awareness of the Welsh Language Scheme and compliance with its requirements. Shortly after the scheme was published, the Communications Team presented to staff the contents of the scheme. Staff who have regular contact with the public were also individually briefed on how they should respond to contact to communications from the public in Welsh.

Gwefan

Mae gan y Comisiwn dudalen ar y we a neilltuir i'r Iaith Gymraeg, y gellir dod ati o unrhyw dudalen arall ar y wefan. Mae'r dudalen yn cynnig golwg cyffredinol ar waith y Comisiwn, ac mae;'n egluro'r drefn gwyno i rai sy'n chwarae'r Loteri Genedlaethol. Ar hyn o bryd mae'r dudalen hon yn cyfrif am 0.1% o'r holl ddefnydd a wneir o'r wefan. Bydd y Comisiwn yn ystyried cyfieithu tudalennau allweddol eraill ar y we i'r Gymraeg os daw'r galw amdanynt yn amlwg.

Recriwtio yng Nghymru

Nid yw'r Comisiwn wedi recriwtio i unrhyw swyddi yng Nghymru, gan fod ein staff i gyd yn gweithio yn ein swyddfeydd yng Nghanol Llundain. Hysbyswyd y tîm Adnoddau Dynol am ofynion y Ddeddf o ran recriwtio, a chynhelir hyfforddiant diweddar os byddwn yn recriwtio i swyddi yng Nghymru.

Aelodau staff sy'n siarad Cymraeg

Mae'r Comisiwn wedi canfod nad oes ganddo unrhyw staff sy'n siarad Cymraeg i gynorthwyo gyda chyfathrebu yn Gymraeg ar lafar neu ar bapur. Byddwn yn parhau i adolygu'r sefyllfa hon wrth i staff newydd gael eu recriwtio.

Gwasanaethau cyfieithu

Mae gan y Comisiwn berthynas gyda gwasanaeth cyfieithu, a ddefnyddiwyd i gyfieithu'r Cynllun Iaith Gymraeg ei hun, a chynnwys Cymraeg y wefan. Byddwn yn parhau i sicrhau ein bod yn cael gwerth am arian wrth gomisiynu gwaith cyfieithu, gan ddarparu gwasanaeth proffesiynol i siaradwyr Cymraeg yr un pryd.

Website

The Commission's website has a dedicated Welsh Language page, which is navigable from any page on the website. The page gives an overview of the work of the Commission, and explains the complaints procedure for National Lottery players. The page currently accounts for 0.1% of all traffic to the website. The Commission will consider translating some other key webpages into Welsh should the demand become apparent.

Recruitment in Wales

The Commission has not recruited for any positions in Wales, as all of our staff are based in our offices in Central London. The HR team have been briefed about the requirements of the Act with regards to recruitment, and refresher training will be undertaken should we undertake any recruitment exercises for positions in Wales.

Welsh speaking members of staff

The Commission has identified that it has no Welsh-speaking members of staff to assist in the translation of written or spoken communication in Welsh. We will continue to review this situation as new staff are recruited.

Translation services

The Commission has a relationship with a translation service, which has been used to translate the Welsh Language Scheme itself, and the Welsh language content for the website. We will continue to ensure that we are getting value for money when commissioning translation work whilst providing a professional service to Welsh speakers.

Cyfathrebu â chwaraewyr

Cyfrifoldeb Camelot, sy'n gweithredu'r Loteri Genedlaethol, yw ymateb i ymholiadau a chwynion gan chwaraewyr. Os nad yw chwaraewr yn fodlon ar yr ymateb gan Camelot, gall gyfeirio'r cwyn i'r Comisiwn. O ganlyniad, ychydig iawn yn unig o gyfathrebu gan ddefnyddwyr sy'n cael eu cyfeirio at y Comisiwn.

Yn ystod y flwyddyn ers i'r Cynllun Iaith Gymraeg ddod i rym, nid yw'r Comisiwn wedi derbyn unrhyw geisiadau gan y cyhoedd i gyfathrebu yn Gymraeg un ai ar bapur, ar lafar neu dros y ffôn. O gofio lefel isel y galw, ni farnwyd ei bod yn gymesur archebu papur yn dwyn pennawd Cymraeg. Fodd bynnag, paratowyd fersiynau Cymraeg o lofnodion Cymraeg i'w defnyddio gan staff os bydd angen yn codi.

Fel corff masnachol, nid oes gofyn i Camelot ddilyn amodiadau Deddf yr Iaith Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn derbyn y dylid gwneud ymdrechion, fel sefydliad i'r DU gyfan, i sicrhau bod dogfennau a welir gan y cyhoedd yng Nghymru ar gael yn y ddwy iaith. Dywed y drwydded i weithredu'r Loteri Genedlaethol yn achos manau adwerthu "a leolir yng Nghymru neu ble mae'r Dosbarthwr yn cynnig tocynnau ar werth i rai sy'n chwarae yng Nghymru y bydd y dogfennau [a ddefnyddir gan chwaraewyr] ... ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg."

Petai'r Comisiwn yn canfod nad yw Camelot wedi bodloni'r gofyniad hwn, mae'r grym gennym i gosbi yn unol â'r rheoliadau, o gofnodi torri'r gofynion yn ffurfiol, i gosbau ariannol.

Player communication

It is the responsibility of Camelot, the operator of the National Lottery, to respond to player enquiries and complaints. If a player is not satisfied with the response from Camelot, they can escalate their complaint to the Commission. As a result, only a small number of consumer communications are referred to the Commission.

In the year since the Welsh Language Scheme has been in place, the Commission has not received any requests from the public to communicate in Welsh either in writing, in person or over the telephone. Given the low level of demand, it was not considered proportionate to order a batch of Welsh language version letterheaded paper. However, Welsh language versions of email signatures have been prepared for use by staff should the need arise.

As a commercial body, there is no requirement for Camelot to follow the stipulations of the Welsh Language Act. However, the Commission does accept that as a UK-wide institution, efforts should be made to ensure that in Wales, player facing documents should be available in both languages. The licence to operate the National Lottery states that where a retail outlet is "situated in Wales or the Distributor offers tickets on sale to participants in Wales the [player facing] documents...shall be available in Welsh as well as in English."

If the Commission found that Camelot was not meeting this requirement, we have the power to apply regulatory sanctions ranging from officially recording a breach, to financial penalties.